

# AWGRYMIADAU AM WEDDÏAU AC YMBILIAU AR GYFER SUL Y GALWEDIGAETHAU

# SUGGESTED PRAYERS AND INTERCESSIONS FOR VOCATIONS SUNDAY

## Colectau

Mae Traddodiadol

Dduw Hollalluog, rhoddwr pob rhodd dda, a benodaist, trwy ragluniaeth fawr y nef, wahanol Urddau o Weinidogion yn dy Eglwys: rho o'th ras, fe ddeisyfwn arnat, i bawb o'r rhai hynny sydd i'w galw at unrhyw swydd a gweinyddiaeth oddi fewn iddi; a'u hadnewyddu â gwirionedd dy athrawiaeth, a'u harwisgo gyda diniweidrwydd bywyd, fel eu bod yn gwasanaethu'n ffyddlon o'th flaen, er gogoniant i'th Enw mawr, ac er lles dy Eglwys sanctaidd; trwy Iesu Grist, ein Harglwydd.

Cyfoes

*Dros weinidogaeth pob Cristion:*

Hollalluog a thragwyddol Dduw, trwy Ysbryd yr hwn y llywodraethir ac y sancteiddir holl gorff yr Eglwys: clyw ein gweddi a offrymwn dros dy ffyddlon bobl, fel y byddo nhw, trwy eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth, yn dy wasanaethu mewn sancteiddrwydd a gwirionedd er gogoniant i'th enw; trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, sy'n fyw ac sy'n teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, Dduw byth bythoedd.

*Dros y rhai hynny sydd i'w hordeinio:*

Hollalluog Dduw, rhoddwr pob rhodd dda, trwy dy Ysbryd Glân y penodaist wahanol urddau gweinidogaeth i'r Eglwys: edrych â thrugaredd ar dy was/weision a elwir nawr i fod yn ddiaconiaid/offeiriad/esgob; cynnal nhw mewn gwirionedd a'u hadnewyddu mewn sancteiddrwydd fel y byddon nhw, trwy air ac esiempl dda, yn dy wasanaethu di'n ffyddlon er gogoniant i'th enw a lles dy Eglwys; trwy haeddiant ein Hiachawdwr Iesu Grist, sy'n fyw ac sy'n teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, Dduw byth bythoedd.

*Dros weinidogaethau i Urddau Sanctaidd:*

Dduw hollalluog, fe ymddiriedaist i'th Eglwys ran yng ngweinidogaeth dy Fab ein Harchoffeiriad: ysbrydola trwy dy Ysbryd Glân galonnau lawer i gynnig eu hunain i'w hordeinio yn dy Eglwys, fel y byddon nhw, yng ngrym dy nerth, weithio er cynnydd dy deyrnas a gosod allan addoliad

## Collects

Traditional

Almighty God, the giver of all good gifts, who by thy divine providence hast appointed various Orders of Ministers in thy Church: give thy grace, we beseech thee, to all those who are to be called to any office and ministration in the same; and so replenish them with the truth of thy doctrine, and endue them with innocency of life, that they may faithfully serve before thee, to the glory of thy great Name, and the benefit of thy holy Church; through Jesus Christ our Lord.

Contemporary

*For the ministry of all Christian people:*

Almighty and everlasting God, by whose Spirit the whole body of the Church is governed and sanctified: hear our prayer which we offer for all your faithful people, that in their vocation and ministry they may serve you in holiness and truth to the glory of your name; through our Lord and Saviour Jesus Christ, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, God for ever and ever.

*For those to be ordained:*

Almighty God, the giver of all good gifts, by your Holy Spirit you have appointed various orders of ministry in the Church: look with mercy on your servant(s) now called to be deacons/priests/a bishop; maintain them in truth and renew them in holiness, that by word and good example they may faithfully serve you to the glory of your name and the benefit of your Church; through the merits of our Saviour Jesus Christ who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, God for ever and ever.

*For vocations to Holy Orders:*

Almighty God, you have entrusted to your Church a part in the ministry of your Son our great High Priest: inspire by your Holy Spirit the hearts of many to offer themselves for ordination in your Church, that strengthened by his power, they may work for the increase of your kingdom and set

tragwyddol dy enw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac sy'n teyrnasu yn undod yr Ysbryd Glân,  
Dduw byth bythoedd.

-----

Dduw hollalluog, fe ymddiriedaist i'th Eglwys ran  
yng ngweinidogaeth dy Fab ein Harchoffeiriad:  
ysbrydola trwy dy Ysbryd Glân galonnau lawer  
i gynnig eu hunain i weinidogaeth dy Eglwys,  
fel y byddon nhw, yng ngrym dy nerth, weithio  
er cynnydd dy deyrnas a gosod allan addoliad  
tragwyddol dy enw; trwy Iesu Grist dy Fab, ein  
Harglwydd.

(Eglwys Loegr – Common Worship)

-----

Dduw ein Tad,  
ti a alwodd Abraham a Moses i arwain  
dy bobl i wlad yr addewid  
a'u llenwi a'th ysbryd:  
cwyd arweinwyr i'th Eglwys yn y genhedlaeth hon,  
a fydd yn gwneud dy Air yn hysbys  
ac i fod yn weision ffyddlon dy ddirgelion,  
fel y byddo dy bobl yn cael eu maethu trwy air y  
bywyd a bara'r nefoedd  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

(Canon Nicholas Thistlethwaite)

Feistr Atgyfodedig  
Ti, a alwodd bysgotwyr a chasglwyr trethi,  
merched a thramorwyr  
i fod yn ddisgyblion iti  
ac i gario'r newyddion da  
at ddynoliaeth doredig:  
galw atat ti dy hun lawer yn y genhedlaeth hon  
i barhau dy waith o gymod,  
fel yr iacheir clwyfau, maddeuir pechodau,  
ac y gwneler dy ewyllys ar y ddaear fel ag y mae  
yn y nefoedd:  
er mwyn dy gariad.

(Canon Nicholas Thistlethwaite)

-----

Arglwydd Dduw a Thad i bawb, dros bopeth, ym  
mhopeth a thrwy popeth: rhown ddiolch y'n gelwir  
ni i'th wasanaeth; boed i dy bobl oll fod yn astud  
ac ufudd i'th alwad.

Arglwydd, clyw dy bobl  
**ac ateb ein gweddiâu.**

Arglwydd pawb a phopeth, rhown ddiolch dy  
fod yn galw rhai i fod yn apostolion, anfonir allan  
i wneud dy waith. Gweddiwn dros bawb sy'n

forward the eternal praise of your name; through  
Jesus Christ our Lord, who is alive and reigns in  
the unity of the Holy Spirit, God for ever and ever.

-----

Almighty God, you have entrusted to your Church  
a share in the ministry of your Son our great high  
priest: inspire by your Holy Spirit the hearts of  
many to offer themselves for the ministry of your  
Church, that strengthened by his power, they may  
work for the increase of your kingdom and set  
forward the eternal praise of your name; through  
Jesus Christ your Son our Lord.

(Church of England – Common Worship)

-----

God our Father,  
you called Abraham and Moses to lead your  
people into a promised land  
and filled them with your spirit:  
raise up leaders for your Church in this generation,  
who will make your word known  
and be faithful stewards of your mysteries,  
that your people may be nourished with the word  
of life and bread of heaven;  
through Jesus Christ our Lord.

(Canon Nicholas Thistlethwaite)

Risen Master,  
you called fishermen and tax-collectors,  
women and foreigners  
to be your disciples  
and to carry the good news  
to a broken humanity:  
call many in this generation  
to continue your work of reconciliation,  
that wounds may be healed, sins forgiven,  
and your will be done on earth as it is in heaven;  
for your love's sake.

(Canon Nicholas Thistlethwaite)

-----

Lord God and Father of all, over all, in all and  
through all: we give thanks that we are called to  
your service; may all your people may be attentive  
and obedient to your calling.

Lord, hear your people  
**and answer our prayers.**

Lord of all, we give thanks that you call some  
to be apostles, sent out to do your work. We pray  
for all who respond to this calling to serve in your  
name: for those immersed in the world, seeking to

ymateb i'r alwad hon i wasanaethu yn dy enw:  
dros y rhai sydd wedi ymdrwytho yn y byd, yn  
ceisio tystio i'r efengyl mewn gair a gweithred,  
dros y rhai y mae eu gwasanaeth yn eu dwyn i  
lefydd lle profir gwrthwynebiad ac anhawsterau,  
boed iddyn nhw gael eu llenwi'n barhaol a'th  
Ysbryd, a'u galluogi i ddilyn dy alwad.

Arglwydd, clyw dy bobl  
**ac ateb ein gweddiau.**

Arglwydd pawb a phopeth, rhown ddiolch dy fod  
yn galw rhai i fod yn broffwydi. Gweddiwn dros  
bawb iti eu galw i lefaru a chyhoeddi gwerthoedd  
dy deyrnas: dros y rhai sy'n herio anghyfiawnder a  
difaterwch ac anwiredd, dros y rhai sy'n ymgyrchu  
dros les dy bobl a dy fyd, boed iddyn nhw gael eu  
llenwi'n barhaol a'th weledigaeth, a dewrder yn eu  
galwad proffwydol.

Arglwydd, clyw dy bobl  
**ac ateb ein gweddiau.**

Arglwydd pawb a phopeth, rhown ddiolch dy  
fod yn gawl rhai i fod yn efengylwyr. Gweddiwn  
dros bawb iti eu galw i rannu neges dy gariad:  
dros y rhai hynny sy'n cyfathrebu'r newyddion  
da am Grist i eraill o amryw gefndiroedd, dros y  
rhai hynny y mae eu brwdfrydedd a'u cariad yn  
cyfleu dy wirionedd, boed iddyn gael eu llenwi â'th  
gariad wrth iddyn nhw rannu'r newyddion da ag  
eraill.

Arglwydd, clyw dy bobl  
**ac ateb ein gweddiau.**

Arglwydd pawb a phopeth, rhown ddiolch dy fod  
yn gawl rhai i fod yn fugeiliaid. Gweddiwn dros  
bawb rwyf wedi'u galw i ofalu am eraill trwy weddi  
a thrwy wasanaeth: dros y rhai hynny sy'n gofalu  
am unrhyw rai sy'n ifanc neu'n hen, sy'n wael neu'n  
cael bywyd yn anodd, dros y rhai sydd â'u gwaith  
yn cefnogi gwasanaethau meddygol, cymdeithasol  
a chymunedol, boed i'w bywydau fod yn sianelau  
dy gariad a'th ras.

Arglwydd, clyw dy bobl  
**ac ateb ein gweddiau.**

Arglwydd pawb a phopeth, rhown ddiolch dy fod  
yn gawl rhai i fod yn athrawon. Gweddiwn dros  
bawb a gafodd alwad gen ti i annog oedolion a  
phlant i ddysgu a thyfu: dros y rhai sy'n addysgu'n  
anffurfiol fel rhieni, mentoriaid a hwylusywr, dros  
weithwyr mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion,  
a thros y rhai hynny sy'n addysgu yn ein heglwysi;  
boed iddyn nhw lefaru dy wirionedd a bod yn

bear witness to the gospel in word and action, for  
those whose service takes them to places where  
they face opposition and difficulty, may they be  
continually filled with your Spirit, and empowered  
to follow your calling.

Lord, hear your people  
**and answer our prayers.**

Lord of all, we give thanks that you call some  
to be prophets. We pray for all whom you have  
called to speak out and proclaim the values of  
your kingdom: for those who challenge injustice  
and apathy and untruth, for those who campaign  
for the well-being of your people and your world  
may they be continually filled with your vision, and  
have courage in their prophetic calling.

Lord, hear your people  
**and answer our prayers.**

Lord of all, we give thanks that you call some to  
be evangelists. We pray for all whom you have  
called to share the message of your love: for those  
who communicate the good news of Christ to  
others from a variety of backgrounds, for those  
whose enthusiasm and love conveys your truth,  
may they be filled with your love as they share the  
good news with others.

Lord, hear your people  
**and answer our prayers.**

Lord of all, we give thanks that you call some to  
be pastors. We pray for all whom you have called  
to care for others through prayer and through  
service: for those who take care of any who are  
young or old, who are sick or struggling, for  
those whose work supports medical, social and  
community services, may their lives be channels of  
your love and grace.

Lord, hear your people  
**and answer our prayers.**

Lord of all, we give thanks that you call some to  
be teachers. We pray for all whom you have called  
to encourage adults and children to learn and  
grow: for those who teach informally as parents,  
mentors and facilitators, for workers in schools,  
colleges and universities, and for those who teach  
in our churches may they speak your truth, and  
help others to grow in wisdom.

Lord, hear your people  
**and answer our prayers.**

gymorth i eraill dyfu mewn doethineb.

Arglwydd, clyw dy bobl  
**ac ateb ein gweddïau.**

Arglwydd pawb a phopeth, fe'n gelwaist, bob yn un, i'th wasanaethu di yn dy fyd ac yn dy Eglwys; cryfha ni a'n cymhwyso trwy dy Ysbryd i adnabod a chydabod dy alwad arnon ni, a rho ras a dewrder inni gyflawni'r alwad honno, trwy Iesu Grist ein Hachubwr. Amen.

(Adran Weinidogaeth Eglwys Loegr)

Dad,  
Rwy'n ymollwng fy hun yn llwyr i dy ddwylo.  
Cyflawna dy ewyllys ynof fi a thrwof fi.  
Beth bynnag fydd hynny, rwy'n diolch iti.  
Rwy'n barod am bopeth, yn derbyn popeth.  
Gwneler dy ewyllys di'n unig ynof fi  
ac yn dy greaduriaid oll.  
Dymunaf ddim mwy na hyn, O Arglwydd.  
I'th ddwylo di yr ymddiriedaf fy enaid.  
Rwy'n ei gynnig iti gyda holl gariad fy nghalon.  
Canys rwy'n dy garu di, Arglwydd, a chymaint ydy  
f'angen i roi fy hun,  
ildio fy hun i'th ddwylo heb ddal yn ôl  
a chyda hyder diderfyn,  
gan mai ti yw fy Nhad. Amen

(Charles de Foucauld 1858–1916)

Arglwydd, rwy't yn ein galw i fod yn adroddwyr:  
yn plannu dy newyddion ysgytwol i'n bywydau  
amddiffynedig; yn ein gosod yn sgript dy hanes  
dynol.

Rwy't yn ein galw i fod yn arloeswyr: yn byw yn  
dy ddyfodol a dderbynnir yn unig fel rhodd; yn  
tanseilio byd disymud, anochel y gorwelion isel.

Rwy't yn ein galw i fod yn wehyddion: yn olrhain,  
ymestyn, cysylltu'r edau clymedig; casglu 'nghyd  
bywydau digyswllt sy'n ymddatod.

Rwy't yn ein galw i fod yn ffyliaid – er mwyn Crist:  
yn dioddef afresymoldebau ac anghysonderau  
bywyd; yn torri trwy ein difrifoldeb a'n  
crandrwydd.

Rwy't yn ein galw i fod yn westeion: croesawyr y  
cysegredig, y personol, gweddnewidiol; dathlwyr  
helaeth o'n cymunedau a'n dychweledigion.

Rwy't yn ein galw i fod yn feirdd: artistiaid a

Lord of all, you have called each of us to serve you  
in your world and in your Church; strengthen and  
equip us by your Spirit to recognise your call to us,  
and give us grace and courage to fulfil that calling,  
through Jesus Christ our Saviour. Amen.

(Church of England Ministry Division)

Father,  
I abandon myself into your hands.  
Do with me whatever you will.  
Whatever you may do I thank you.  
I am ready for all, I accept all.  
Let only your will be done in me  
and all your creatures.  
I wish no more than this, O Lord.  
Into your hands I commend my soul.  
I offer it to you with all the love of my heart.  
For I love you Lord and so need to give myself,  
surrender myself into your hands without reserve  
and with boundless confidence  
for you are my Father. Amen

(Charles de Foucauld 1858–1916)

Lord, you call us to be story-tellers: planting your  
explosive news into our defended lives; locating us  
in the script of your human history.

You call us to be trailblazers: living in your future  
that we receive only as gift; subverting the fixed,  
fated world of low horizons.

You call us to be weavers: tracing, stretching,  
connecting the knotted threads; gathering up  
unravelling, disconnected lives.

You call us to be fools – for Christ's sake:  
bearing life's absurdities and incongruities;  
puncturing our seriousness and grandiosity.

You call us to be hosts: welcomers of the sacred,  
intimate, transfiguring; lavish celebrants of our  
communities and homecomings.

You call us to be poets: artists and illuminators  
of inner space; naming, invoking, heralding your  
ineffable presence.

You call us to be gardeners: sowers, cultivators,  
nurturers of fragile lives; benefactors of your  
gratuitous harvest.

goleuwyr y manau mewnol; yn enwi, gwahodd,  
yn cyhoeddi dy bresenoldeb anhraethol.

Rwyt yn ein galw i fod yn arddwyr: yn hau, trin,  
meithrin bywydau bregus; cymwynaswyr dy  
gynhaeaf rhad.

Rwyt yn ein galw i fod yn arweinyddion: yn  
dathlu poliffoni, cymell symffoni; trefnu mawl dy  
greadigaeth gyfannedd;

Arglwydd, rwyt yn tywallt dy roddion yn hael ar  
bawb rwyt yn eu galw. Nerth ani a'n cynnal ni a  
holl weinidogion dy eglwys, fel y byddon ni, yn  
rhythwant ac amrywiaeth ein galwedigaeth, yn  
gatalyddion dy deyrnas yn y byd, trwy Iesu Grist  
ein Harglwydd. Amen

(Roger Spiller 1944– )

Dad cariadlon, rwyt yn ein galw i dy helpu  
adeiladu gwell byd. Wrth inni deithio trwy fywyd  
gan wrando ar lais Arglwydd yr Atgyfodiad,  
tania'n calonnau, wrth inni glywed dy Air yn yr  
ysgrythurau, a rhannu'r Cymun Sanctaidd.  
Tywallt dy Ysbryd Glân arnon ni, fel y byddo  
doethineb a deall ganddon ni. Arwain ni yn ôl  
traed dynion a merched sanctaidd ym mhob oes  
fel y cawn ein trawsnewid yn ddelwedd fywiol  
o Iesu, dy Fab, a fu'n byw bywyd o wasanaeth i  
bawb. Gofynnwn hyn, trwy Grist, ein Harglwydd.  
Amen

(Eglwys Babyddol Rhufain)

Ffurf ar Ymbiliad ar gyfer Sul y Galwedigaethau

Cawn ein harwain gan ein Duw cariadlon gyda  
gofal a chariad bugail, a thrwy hynny, hyderus  
ydyn ni y bydd yn gwrandao wrth inni ddwyn ein  
deisyfiadau o'i flaen.

Ar y Sul yma, Sul y Galwedigaethau, gweddiwn  
dros alwedigaethau yng ngweinidogaeth yr  
Eglwys: Boed i lawer gael eu harwain i ystyried  
galwad i'r offeriadaeth, y ddiagoniaeth, y bywyd  
crefyddol ac amrywiol weinidogaethau lleyg, a  
boed inni i gyd ddarganfod o'r newydd galwad  
Duw ar ein bywdau'n hunain.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

**Clyw ein gweddi.**

Dros ein hesgobion, offeiriaid, diaconiaid ac

You call us to be conductors: celebrating  
polyphony, coaxing symphony; orchestrating the  
praise of your inhabited creation;

Lord, you lavish gifts on all whom you call.  
Strengthen and sustain us and all ministers of  
your church, that in the range and diversity of our  
vocation, we may be catalysts of your kingdom in  
the world, through Jesus Christ our Lord. Amen

(Roger Spiller 1944– )

Loving Father, you call us to help you build a  
better world. As we journey through life listening  
to the voice of the Risen Lord, make our hearts  
burn within us, as we hear your Word in scripture,  
and share in the Holy Eucharist.  
Pour out on us your Holy Spirit, that we might  
have wisdom and understanding. Guide us in the  
footsteps of holy men and women of every age so  
that we may be transformed into the living image  
of Jesus your Son, who lived at the service of all.  
We ask this, through Christ our Lord. Amen

(The Roman Catholic Church)

A Form of Intercession for Vocations Sunday

Our loving God guides us with a shepherd's care  
and love, and so we are confident that he will  
listen as we place our needs before him.

On this Vocations Sunday, we pray for vocations  
to the Church's ministry: May many be led to  
consider a calling to the priesthood, the diaconate,  
the religious life and various lay ministries, and  
may we all discover anew God's calling in our own  
lives.

Lord, in your mercy.

**Hear our prayer.**

For our bishops, priests, deacons and religious  
leaders: especially N. our bishop, and N. our  
parish priest, that they may be renewed in their  
dedication to a truly humble and loving service to  
all God's people, and those who are preparing for  
ordination: may they be guided and inspired by  
the example of the good shepherd.

Lord, in your mercy.

**Hear our prayer.**

arweinwyr crefyddol: yn enwedig N. ein hesgob,  
ac N. ein hofferiad plwyf, y bydden nhw'n cael eu  
hadnewyddu yn eu hymrwymiad i wasanaeth gwir  
ostyngedig a chariadlon i holl bobl Dduw, a'r rhai  
hynny sy'n paratoi ar gyfer ordeiniad: boed iddyn  
nhw gael eu harwain a'u hysbrydoli gan esiampl y  
bugail da.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

**Clyw ein gweddi.**

Dros arweinwyr gwleidyddol, y byddo iddyn nhw  
ddilyn esiampl y Bugail Da yn eu gofal a'u consyrn  
am y rhai a ymddiriedwyd i'w gofal.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

**Clyw ein gweddi.**

Dros y rhai sy'n dioddef mewn unrhyw ffordd:  
Boed i Dduw eu cysuro, a'i law iachusol eu nerthu  
a'u hamddiffyn.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

**Clyw ein gweddi.**

Dros ein hunaina holl bobl Dduw: ein bod yn  
gwrando ar lais y Bugail Da yn llonydwch ein  
calonnau a dilyn yn agos camau ôl ei draed.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

**Clyw ein gweddi.**

Dros yr ymadawedig: boed iddyn gyrraedd  
llawnder bywyd yng ngŵyl Pasg ddiwedd y nef,  
y rhai a hunodd yn ddiweddar, a'r rhai a gofir a  
gollwyd yr wythnos hon dros y blynyddoedd.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

**Clyw ein gweddi.**

Mewn ennyd o dawelwch fe ddygwn ein  
anghenion a'n pryderon ein hunain at ein Tad  
nefol.

*Cedwir yn dawel.*

Dad trugarog...

For political leaders, that they may follow the  
example of the Good Shepherd in their care and  
concern for those who are entrusted to them.

Lord, in your mercy.

**Hear our prayer.**

For those who suffer in any way: May God comfort  
them, and his healing hand strengthen and protect  
them.

Lord, in your mercy.

**Hear our prayer.**

For ourselves and all God's people: that we listen  
to the voice of the Good Shepherd in the stillness  
of our hearts and follow closely in his footsteps.

Lord, in your mercy.

**Hear our prayer.**

For the departed: may they attain the fullness of  
life within the endless Easter festival of heaven,  
those who have died recently, and those whose  
anniversaries of death occur this week.

Lord, in your mercy.

**Hear our prayer.**

In a moment of silence we bring our own needs  
and concerns to our heavenly Father.

*Silence is kept.*

Merciful Father...



**Esgobaeth  
Bangor**  
The Diocese  
of Bangor